**Pwyllgor Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig ARD 10-01(min)**

## Cofnodion

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | Dydd Mercher 6 Mehefin 2001 |
| **Amser:** | 2.00pm hyd 4.55pm |
| **Lleoliad:** | Ystafell Bwyllgora, Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol |

Yn bresennol

| | |
|---|---|
| *Aelodau* | |
| Glyn Davies, Cadeirydd | Canol a Gorllewin Cymru |
| Mick Bates | Sir Drefaldwyn |
| Jocelyn Davies | Dwyrain De Cymru |
| Delyth Evans | Canol a Gorllewin Cymru |
| Carwyn Jones | Pen-y-bont ar Ogwr |
| Elin Jones | Ceredigion |
| Peter Rogers | Gogledd Cymru |
| Janet Ryder | Gogledd Cymru |
| *Yn bresennol* | |
| Yr Athro Terry Marsden | Ymgynghorydd arbenigol |
| *Swyddogion* | |
| Gareth Jones (eitem 2) | Pennaeth Gweithrediadau Clwy'r Traed a'r Genau |
| Rory O'Sullivan (eitem 2) | Is-adran Polisi Amaethyddol |
| Tony Edwards (eitem 2) | Prif Swyddog Milfeddygol Cymru |
| Mike Dunn (eitem 2, 3 a 4) | Is-adran Datblygu Bwyd a Ffermio |
| Terri Thomas (eitem 4) | Is-adran Datblygu Bwyd a Ffermio |
| *Ysgrifenyddiaeth* | |
| Adrian Crompton | Clerc Pwyllgor |
| Howell Rees | Dirprwy Glerc Pwyllgor |

### Eitem 1: Ymddiheuriadau, cyfnewidiadau a datganiadau o fudd

1.1 Derbyniwyd ymddiheuriadau gan John Griffiths a Huw Lewis. Datganodd y Cadeirydd fod iddo fudd fel partner mewn busnes ffermio. Dywedodd Peter Rogers ei fod yn ffermwr a dywedodd Mick

Bates ei fod yn bartner mewn busnes ffermio.

**Eitem 2: Adroddiad y Gweinidog -** ARD 10-01(p1)

2.1 Dywedodd y Gweinidog mai ‘nonsens llwyr’ oedd y storïau y byddai llawer o anifeiliaid yn cael eu difa ar ôl yr etholiad cyffredinol. Yr oedd milfeddygon wedi bod yn neilltuo nifer o ystafelloedd gyda’i gilydd mewn gwestai oherwydd yr angen i wneud profion gwaed cyn codi cyfyngiadau. Croesawyd sylwadau’r Gweinidog gan fod storïau o’r fath yn achosi pryder difrifol ymhlith ffermwyr.

2.2 Mynegwyd pryder bod rhai ffermwyr yn dal heb dderbyn iawndal am stoc a oedd wedi eu difa a’u bod yn wynebu anawsterau ariannol. Dywedodd y Gweinidog fod £681 miliwn wedi ei dalu fel iawndal yn y DG hyd yn hyn. Yr oedd tua 300 o achosion yn cael eu dal yn ôl oherwydd mân gamgymeriadau yr oedd angen eu datrys cyn y gellid gwneud taliadau. Yr oedd ceisiadau newydd fel arfer yn cael eu talu cyn pen chwe diwrnod. Nododd y Pwyllgor y byddai’r swyddogion yn edrych ar unrhyw achosion unigol a fyddai’n cael eu dwyn i’w sylw.

2.3 Holwyd y Gweinidog ynghylch y rhagolygon ar gyfer ailddechrau allforio cynnyrch, yn enwedig wyn. Dywedodd y Gweinidog nad oedd yn edrych yn debygol y byddai modd allforio eleni. Yr oedd ef a’i swyddogion yn gweithio mewn cysylltiad agos ag Adrannau Amaethyddiaeth eraill y DG er mwyn edrych ar y dewisiadau ar gyfer gadael cyfyngiadau clwy’r traed a’r genau, a oedd yn cynnwys y nod o ailymuno â’r farchnad allforio cyn gynted ag y byddai hynny’n bosibl. Nid oedd yn glir eto pa ofynion fyddai’n cael eu pennu gan yr Undeb Ewropeaidd a’r Pwyllgor Milfeddygol Sefydlog. Yr oedd angen sicrhau cydbwysedd rhwng cadw at y rheolyddion llym yr oedd Ewrop yn debygol o’u mynnu cyn caniatáu allforio ac ailddechrau prynu a gwerthu da byw gartref a’r symud anifeiliaid ehangach a fyddai’n digwydd yn sgil hyn. Un dewis posibl fyddai codi gwaharddiadau allforio ar sail rhanbarthau unigol yn y DG ond mae’n debyg y byddai hyn yn galw am reolyddion symud llymach na’r rhai sy’n bodoli ar hyn o bryd.

2.4 Dywedodd Tony Edwards wrth y Pwyllgor fod y rhaglen profion gwaed er mwyn codi rhybuddion Ffurflen D wedi ei chwblhau yn y rhanbarthau diogelu o amgylch 31 o achosion ac y byddai’n dechrau cyn bo hir o amgylch clystyrau Aberriw a’r Grysmwnt. Disgwylid y canlyniadau terfynol ar gyfer canol Powys a Chastell Nedd yn fuan a gobeithiai y byddai modd codi’r rhybuddion D yn yr ardaloedd hynny wedyn. Yr oedd prinder labordai i wneud profion yn broblem ond yr oedd mwy o gyfleusterau ar gael trwy gyfrwng cyfrifiaduron.

2.5 Holwyd y Gweinidog pa gamau oedd yn cael eu cymryd er mwyn galluogi ffermwyr i ddychwelyd at amgylchiadau mwy normal ar gyfer prynu a gwerthu da byw, a faint o gynnydd oedd wedi ei wneud gyda’r gwaith o sefydlu canolfannau casglu. Nododd y Pwyllgor fod adfer prynu a gwerthu arferol wedi ei gynnwys yn y trafodaethau ehangach am strategaeth er mwyn codi cyfyngiadau clwy’r traed a’r genau. Nid oedd prynu a gwerthu’n cael ei ganiatáu ar y pryd ac eithrio lle’r oedd stoc yn cael eu hanfon yn syth i ladd-dy i’w lladd fel cig i’w fwyta gan bobl. Fel y crybwyllwyd yn gynharach yr oedd angen sicrhau cydbwysedd rhwng adfer prynu a gwerthu arferol ac ailagor y farchnad allforio. Gellid sefydlu

canolfannau casglu erbyn hyn.

2.6 Codwyd pwnc ailstocio ffermydd ar ôl codi rhybuddion Ffurflen D. Holwyd y Gweinidog pwy oedd yn gyfrifol am drefnu'r broses ac a oedd modd dod â gwartheg dros 30 mis oed i mewn fel prawf. Dywedodd Tony Edwards y byddai staff y Gwasanaeth Milfeddygol Gwladol yn rhoi cyfarwyddyd. Yr oedd yn bwysig bod ffermydd yn cael eu hailstocio gydag anifeiliaid glân. Byddid yn gofyn am eglurhad ynghylch y pwynt hwn ac ynghylch defnyddio gwartheg dros ddeng mis ar hugain oed fel anifeiliaid rhybuddio.

2.7 Yr oedd achos newydd o glwy'r traed a'r genau yn Sir Amwythig wedi rhwystro ffermwyr rhag defnyddio ffordd uniongyrchol o fynd â stoc o Ogledd Powys i ladd-dai yn Lloegr. Nododd y Pwyllgor fod cynnig i ddefnyddio ffordd yr A5/M54 wedi ei gyflwyno i'r Weinyddiaeth Amaeth Pysgodfeydd a Bwyd. Cydnabuwyd bod lladd-dai yn dod yn fwy a mwy pwysig wrth i'r ardaloedd heintiedig fynd yn llai.

2.8 Holwyd y Gweinidog a ellid rhoi blaenoriaeth i ffermydd a oedd yn ddarostyngedig i rybuddion Ffurflen D er mwyn delio gyda gwartheg dros ddeng mis ar hugain oed. Nododd y Pwyllgor fod y pwnc hwn yn cael ei ystyried fel rhan o'r strategaeth ymadael a bod dylanwad y Cynulliad yn cael ei ddefnyddio lle bynnag yr oedd hynny'n bosibl.

2.9 Cyn codi'r statws Ardal Heintiedig ym Môn, yr oedd trwyddedau yn caniatáu i anifeiliaid symud o'r Ynys i gael eu lladd y tu allan i'r Ardal Heintiedig fel cig i'w fwyta gan bobl wedi eu tynnu'n ôl. Nododd y Pwyllgor y caniateid symud anifeiliaid i gael eu lladd bellach. Yr oedd trefniadau arbennig wedi eu gwneud yn Nyfnaint gan fod yr unig ladd-dy a oedd ar gael yn yr ardal heintiedig wedi ei ddinistrio gan dân.

2.10 Holwyd y Gweinidog a ellid newid statws de Meirionnydd o Ardal Mewn Perygl i ardal rydd dros dro. Dywedodd Tony Edwards nad oedd unrhyw feini prawf penodol ar gyfer newid o statws mewn perygl i statws rhydd dros dro ac yr oedd yn pwyso am eglurhad gan y Weinyddiaeth Amaeth. Y flaenoriaeth hyd yma oedd codi rhybuddion Ffurflen D. Nododd y Pwyllgor y gellid ymestyn y dadleuon o blaid ailddynodi de Meirionnydd fel ardal rydd dros dro i'r rhan fwyaf o Wynedd a Chlwyd ond y byddai hyn yn gadael Ynys Môn ar wahân, gan fod Ynys Môn bellach, ar gyngor y milfeddygon, wedi ei dynodi'n Ardal Mewn Perygl.

2.11 Mynegwyd pryderon ynghylch cynaeafu cnydau porthiant mewn ardaloedd heintiedig a gofynnwyd i'r Gweinidog a oedd unrhyw gynlluniau i sefydlu banc porthiant. Dywedodd y Gweinidog fod nifer o ddewisiadau'n cael eu hystyried ac y byddai cynlluniau'n cael eu sefydlu erbyn mis Medi er mwyn delio gyda'r problemau hyn.

2.12 Croesawyd y newyddion bod Adolygiadau Dewisiadau Busnesau Fferm ar gael a holwyd y Gweinidog a allai ffermydd a oedd yn ddarostyngedig i rybuddion Ffurflen D gael blaenoriaeth ar gyfer y cynllun. Dywedodd y Gweinidog fod hyn yn fater y gellid ei ystyried ac y byddai'n adrodd yn ôl yn y

cyfarfod nesaf.

2.13 Pwysleisiodd y Gweinidog ei bod yn bwysig edrych ymlaen ond nad oedd clwy’r traed a’r genau wedi ei goncro eto a bod angen i bawb fod yn wyliadwrus o hyd.

2.14 Cadarnhaodd y Cadeirydd y byddai cynigion yn ymwneud â diwygio trefniadau Cig Oen yr Undeb Ewropeaidd yn cael eu hystyried yn y cyfarfod nesaf.

2.15 Gofynnwyd i’r Gweinidog a fyddai adroddiad ar ganlyniad yr ymgynghoriad ar y gwaharddiad arfaethedig rhag symud da byw am 20 diwrnod yn cael ei gyflwyno i’r Pwyllgor cyn gwneud unrhyw benderfyniadau. Dywedodd y Gweinidog fod y cyfnod ymgynghori’n dod i ben ar 11 Mehefin. Byddai angen i’r swyddogion ystyried manylion yr ymatebion a dderbynnid. Gan fod gan y Pwyllgor ddiddordeb, byddai’n cylchredeg copïau o’r ymatebion i’r broses ymgynghorol ac yn paratoi adroddiad interim ar gyfer y cyfarfod nesaf.

2.16 Awgrymwyd, yn dilyn cyhoeddi rhybudd gwahardd dan adran 110 Deddf Diogelu’r Amgylchedd, y dylid cynnal seminar yng Nghaerdydd ar bolisi Ewrop yng nghyswllt cnydau wedi eu haddasu’n enetig. Dywedodd y Gweinidog nad oedd yn erbyn y syniad o gynhadledd o’r fath ond y byddai angen iddo gael ei argyhoeddi o’i phwrpas ac a fyddai’n cynnig gwerth am arian. Yr oedd Cymru’n chwilio am gefnogaeth i’w pholisi ar gnydau wedi eu haddasu’n enetig gan wladwriaethau Ewropeaidd eraill a gallai hyn fod yn sylfaen er mwyn rhannu syniadau yn y dyfodol.

2.17 Holwyd y Gweinidog a oedd y Gweinidog Gwladol dros yr Amgylchedd yn bwriadu cyflwyno deddfwriaeth a fyddai’n golygu mai’r sawl a oedd yn tyfu’r cnwd fyddai’n gyfrifol pe bai cnydau wedi eu haddasu’n enetig yn achosi llygredd. Dywedodd y Gweinidog y cymerid yn ganiataol yn barod mai’r sawl a oedd yn tyfu’r cnwd oedd yn gyfrifol ond y gallai Adran yr Amgylchedd geisio gwneud hyn yn ffurfiol.

2.18 Holwyd y Gweinidog a ellid dod o hyd i arian ar gyfer astudiaeth ddichonoldeb yng nghanolbarth Cymru er mwyn sefydlu prosiect tebyg i *'Shelterwoods'* y tu allan i’r ardal Amcan 1. Nododd y Pwyllgor fod swyddogion y Cynulliad yn gweithio gyda’r Comisiwn Coedwigaeth er mwyn darganfod ffyrdd o ariannu prosiect peilot a’u bod yn gobeithio y gallent sicrhau cynnydd sylweddol yn ystod y dyddiau nesaf.

*Pwyntiau gweithredu*

2.19 Eglurhad i’w ddarparu yn nodi pa anifeiliaid y gellid eu defnyddio ar gyfer ailstocio ac a ellid defnyddio gwartheg dros ddeng mis ar hugain oed fel anifeiliaid rhybuddio. (Ceir copi o'r nodyn a ddarparwyd yn atodiad 1.) - Tony Edwards.

2.20 Adrodd yn ôl i’r cyfarfod nesaf i ddweud a all ffermydd sy’n ddarostyngedig i rybuddion Ffurflen D gael blaenoriaeth ar gyfer Adolygiadau Dewisiadau Busnesau Fferm - Gweinidog (Is-adran Datblygu

Bwyd a Ffermio).

2.21 Ymatebion i'r ymgynghoriad ynghylch y cyfyngiadau symud 20 diwrnod i fod ar gael i aelodau'r pwyllgor - Gweinidog (Is-adran Polisi Amaethyddol).

**Eitem 3: Cynllun Datblygu Gwledig - ARD 10-01(p2)**
3.1 Gwahoddodd y Gweinidog y Pwyllgor i ystyried yr adroddiad cynnydd a oedd yn ymwneud â'r Cynllun Datblygu Gwledig.

3.2 Holwyd y Gweinidog pa effaith y byddai clwy'r traed a'r genau'n ei gael ar y Cynllun. Eglurodd ei bod yn bosibl gofyn i'r Comisiwn Ewropeaidd gytuno i newid rhai rhannau o'r Cynllun. Fodd bynnag, nid oedd yn awyddus i wneud newidiadau i'r Cynllun er mwyn helpu i adfer cefn gwlad ar ôl clwy'r traed a'r genau os oedd cymorth ariannol ar gael gan lywodraeth y DG. Mae'n debyg na fyddid yn gwybod faint o gymorth fyddai ar gael gan y llywodraeth hyd fis Medi.

3.3 Yr oedd llawer o bobl yn teimlo bod Tir Gofal yn rhy elitaidd a gofynnwyd i'r Gweinidog beth oedd yn cael ei wneud er mwyn datblygu cynllun annibynnol y gallai pob ffermwr ymwneud ag ef. Dywedodd y Gweinidog fod adroddiad yn cael ei wneud er mwyn cloriannu Tir Gofal ac ystyried y dewisiadau a oedd ar gael. Dywedodd y Cadeirydd y byddai adroddiad cloriannu Tir Gofal yn cael ei drafod yn fanwl mewn cyfarfod yn y dyfodol gan ei bod yn bwysig bod y Pwyllgor yn cael cyfle i fynegi ei farn cyn i'r Gweinidog wneud unrhyw benderfyniadau.

3.4 Holwyd y Gweinidog pa gysylltiadau a oedd yn bodoli rhwng y Cynllun Datblygu Gwledig a Chronfeydd Strwythurol Ewropeaidd eraill. Nododd y Pwyllgor fod cyfarfod wedi ei gynnal gyda Phartneriaeth Dwyrain Cymru i drafod cyd-drefnu'r Cynllun ac Amcan 2.

3.5 Holwyd y Gweinidog ynghylch y trefniadau arolygu ar gyfer y Cynllun Datblygu Gwledig. Nododd y Pwyllgor fod pwyllgor arolygu'n cael ei sefydlu.

3.6 Yr oedd paragraff 17 yn y papur yn cyfeirio at gamau a oedd yn cael eu cefnogi dan Erthygl 33. Gofynnwyd am fwy o fanylion am y gweithgareddau a fyddai'n deillio o'r ddau bwynt cyntaf; gwasanaethau sylfaenol ar gyfer yr economi a'r boblogaeth wledig, ac adnewyddu a datblygu pentrefi a gwarchod a diogelu'r dreftadaeth wledig. Nododd y Pwyllgor fod yr Is-adran Polisi Gwledig yn ymgynghori â'r Bartneriaeth Wledig ynghylch y camau hyn ond nad oedd llawer o adnoddau ar gael dan y Cynllun.

**Eitem 4: Sectorau amgen** - ARD 10-01(p3)
4.1 Croesawyd y bwriad i gynnwys bio-màs fel sector a oedd i gael blaenoriaeth yng nghyswllt datblygu a gofynnwyd i'r Gweinidog sut fyddai hyn yn cael ei wneud. Dywedodd fod strategaeth bio-màs yn cael ei pharatoi ac y dylai fod yn barod erbyn diwedd y flwyddyn. Mynegwyd y farn fod angen i'r strategaeth gynnwys datganiad a oedd yn arwain at ragdybiaeth o blaid datblygiadau ynni adnewyddadwy. Nododd y Pwyllgor fod cyfarwyddyd cynllunio ar ynni adnewyddadwy yn cael ei baratoi ac y byddai'n cysylltu

â’r strategaeth bio-màs.

4.2 Mynegwyd pryder nad oedd llawer o bobl wedi manteisio ar y Cynllun Coetir Ffermydd a bod angen ei farchnata a’i wneud yn fwy atyniadol. Dywedodd y Gweinidog fod y Comisiwn Coedwigaeth yn gwneud adolygiad llawn o’r cynllun. Nid oedd cyfraddau’r grantiau’n atyniadol, yn enwedig yn yr Ardal Anfanteisiol, ond caent eu cyfrifo ar sail incwm rhagweladwy ac yr oedd angen i’r Undeb Ewropeaidd gytuno arnynt.

4.3 Mynegwyd y farn bod angen gwneud mwy i annog y defnydd o goed wedi eu cynhyrchu gartref na allai gystadlu o ran pris â mewnforion rhatach.

4.4 Cadarnhaodd y Gweinidog y byddai papur yn cael ei baratoi er mwyn nodi sut y byddid yn ariannu’r gwaith o ddatblygu sectorau amgen.

**Eitem 5: Adolygiad o Arallgyfeirio Economi Cefn Gwlad** - ARD 10-01(p4)

5.1 Dywedodd y Clerc y byddai’r argymhellion drafft a oedd yn ymwneud â marchnata, ychwanegu gwerth a datblygu cymunedau, pe bai’r Pwyllgor yn cytuno arnynt, yn cael eu cynnwys yn yr adroddiad interim y cytunwyd arno yn Chwefror er mwyn llunio adroddiad terfynol. Yr oedd yr adroddiad terfynol i fod i gael ei ystyried yn y Cyfarfod Llawn ar 28 Mehefin. Yr oedd trefniadau’n cael eu gwneud i baratoi fersiwn wedi ei rwymo o’r adroddiad ar gyfer lansiad cyhoeddus ffurfiol cyn gynted ag y gellid ar ôl 28 Mehefin. Amlinellwyd prif argymhellion y papur wedyn gan Terry Marsden.

5.2 Croesawodd y Pwyllgor yr adroddiad drafft a diolchwyd i Terry Marsden am ei gyfraniad. Awgrymwyd y dylid cynnwys enghreifftiau yn yr adroddiad i egluro’r argymhellion. Dylid cynnwys adrannau hefyd er mwyn cyfeirio darllenwyr at ffynonellau cyngor a chyllid. Dywedodd y Clerc nad oedd yr adroddiad yn cynnwys manylion am ffynonellau cyngor a chyllid ond ei fod yn cynnwys argymhellion y dylai cyfarwyddyd fod ar gael. Cyfrifoldeb y Gweinidog a’r asiantaethau perthnasol oedd ymateb i’r argymhellion hyn fel y byddai’n briodol.

5.3 Yr oedd yr adran ar ddatblygu cymunedau’n cyfeirio at y rhaglen Cymunedau yn Gyntaf ond cymunedau trefol yn bennaf fyddai’n elwa ohoni. Hyderid y gellid defnyddio Cymunedau yn Gyntaf er mwyn bwrw ’mlaen â datblygiadau cymunedol mewn cymunedau gwledig. I’r perwyl hwn yr oedd yn bwysig bod cymunedau eraill yn ymwybodol o argymhellion yr adroddiad.

5.4 Codwyd rhai pwyntiau manwl:

- yr oedd y paragraff olaf ond un ar y dudalen gyntaf yn cyfeirio at "ddogfen *gwellcymru* y Cynulliad". Nid oedd y ddogfen hon, fodd bynnag, wedi ei mabwysiadu gan y Cynulliad llawn;
- ar waelod yr ail dudalen dylid newid "HOREB" i "canolfan fwyd Horeb".

5.5 Cynigwyd y dylid lansio’r adroddiad mewn prosiect arallgyfeirio llwyddiannus. Gofynnwyd i’r

aelodau gysylltu â’r Clerc er mwyn awgrymu lleoliadau addas. Dywedodd y Gweinidog y byddai’r swyddogion hefyd yn cynorthwyo gydag awgrymiadau.

**Eitem 6: Cofnodion y cyfarfod blaenorol** - ARD 09-01(min)
6.1 Nid oedd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 16 Mai yn adlewyrchiad cywir o’r drafodaeth ar bysgodfeydd rhwydi (paragraff 3.4). Cytunwyd y dylid newid y cofnodion er mwyn adlewyrchu cefnogaeth gref y pwyllgor i barhad pysgota â chwryglau a rhwydi hir yng Nghymru.

6.2 Cytunodd y Pwyllgor wedyn fod y cofnodion yn gywir.

Ysgrifenyddiaeth Mehefin 2001

---

**Atodiad 1**

Nid yw'r cyfieithiad Cymraeg ar gael ar hyn o bryd.

I agreed to establish whether OTMS animals could be used as sentinels for re-stocking. Having discussed with State Veterinary Headquarters in Page St London, current policy is that such animals should not be used.

There may some confusion over re-stocking. ‘Clean’ animals can be licensed onto the infected farm 21 days after the completion of final cleansing and disinfection. Whilst this stock is used as sentinel stock, it is not intended that they are purchased specifically for the purpose. The expectation is that that farm is no longer infected and the monitoring and testing of the stock is merely a final check. Any stock licensed on are therefore part of the farmer’s re-stocking policy.

W A Edwards
Chief Vet.